



**2pm, dydd Iau 12 Gorffennaf 2018**  
**Y Goleudy, Llanelli**

**COFNODION**

<b>Yn bresennol</b>	
<b>Enw</b>	<b>Corff/mudiad</b>
Barry Liles (Cadeirydd)	Coleg Sir Gâr
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rob Quin	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jason Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cyng. Jan Curtice	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Uwch-arolygydd Gary Mills	Heddlu Dyfed-Powys
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Jonathan Feild	Adran Gwaith a Phensiynau

<b>Yn Bresennol</b>	
<b>Enw</b>	<b>Corff/mudiad</b>
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Thomas	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amy Richmond	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

<b>Ymddiheuriadau</b>	
<b>Enw</b>	<b>Corff/mudiad</b>
Y Cyng. Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Mark James	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Walters	Cyngor Sir Caerfyrddin
Steve Moore	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bernardine Rees	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Jennings	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jane Davidson	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Yr Athro Jean White	Llywodraeth Cymru
Deanne Martin	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

- Croesawodd Barry Liles bawb i'r cyfarfod ac awgrymu bod yr agenda yn cael ei haildrefnu fel bod y cyflwyniadau'n digwydd gyntaf. Cytunwyd ar hyn.

## 2. Prosiect Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod Heddlu Dyfed-Powys

- Rhoddodd y Prif Arolygydd Richard Yelland drosolwg ar ymchwil lechyd Cyhoeddus Cymru i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod a gwaith ar y galw o ran atgyfeiriadau diogelu yn Ne Cymru, a ddangosodd nad oedd 72% o atgyfeiriadau diogelu plant yn cyrraedd y trothwy, ac felly nid oedd dim yn cael ei wneud yn eu cylch. Cyfle i gydweithio i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ymysg cenedlaethau'r dyfodol ac i gael effaith sylweddol ar ein cymunedau.
- Amlinellwyd y pedwar sylfaen cydnerthedd roedd eu hangen i dorri'r cylch o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod:
  1. Un neu ragor o berthynasau sefydlog, gofalgar rhwng plentyn ac oedolyn
  2. Yn gallu rheoli eich ymddygiad a'ch emosiynau
  3. Yn teimlo eich bod yn gallu goresgyn caledi a dylanwadu ar eich tynged
  4. Yn teimlo'n rhan o bethau ac yn gysylltiedig.
- £6.87 miliwn wedi dod i law gan Gronfa Trawsnewid Heddlu y Swyddfa Gartref, yn dilyn cais ar y cyd gan Heddlu De Cymru ac lechyd Cyhoeddus Cymru. Y nod yw trawsnewid y modd yr ymdrinnir â bod yn agored i niwed a defnyddio ymagwedd amlasiantaeth a lywir gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, a fydd yn galluogi ymyrraeth gynnar ac atal drwy fynd i wraidd yr achos.
- Arweinydd Plismona (RY), Arweinydd Partneriaeth (Sharon Fernandez) a 2 Gydgysylltydd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod wedi'u penodi yn Nyfed Powys.
- Mae dau o'r pedwar amcan yn ymwneud â phartneriaid:
  - Un drws ffyrnt integredig 24/7 ar gyfer bod yn agored i niwed
  - Ymateb system gyfan at fod yn agored i niwed drwy weithredu ymagweddau a lywir gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod ar gyfer partneriaid allweddol a phlismona gweithredol.
- Mae'r ymagwedd gyfan yn cael ei hategu gan hyfforddiant a lywir dan drawma.
- Y camau nesaf ar gyfer y rhaglen yw:
  - Sefydlu Bwrdd Llywodraethu Lleol
  - Dylunio cynllun cyflenwi lleol ar gyfer pob ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
  - Cwblhau'r model darparu ar gyfer hyfforddiant a lywir gan drawma.
- Yn ategu'r rhaglen 1,000 o ddiwrnodau cyntaf, y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymrwymo iddi, a bydd yn cael ei ddarparu gan y Grŵp Gweithredu Ymyriadau Cynnar. Cytunwyd bod ymyrraeth gynnar yn hanfodol a bod angen sicrhau bod gwaith y Grŵp Gweithredu yn cwmpasu'r gwaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, yn hytrach na chael cynllun gweithredu ar wahân.
- Nodwyd arfer da yn Llanelli gan y Prif Arolygydd Yelland, yn dilyn ymweliad â staff Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Angen mapio ar draws y sir.
- Roedd cyllid tan fis Mawrth 2020, fodd bynnag bydd hon yn rhaglen o newid 15-20 mlynedd. Mae angen i'r strwythur llywodraethu weithio i fyny i'r Bwrdd Rhaglen Genedlaethol, ac mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Richard Lewis yn hapus i gadeirio'r Bwrdd Llywodraethu Rhanbarthol.
- £92k ar gael ar draws Dyfed Powys i ddatblygu prosiectau i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd.

### CAM GWEITHREDU

Dosbarthu adroddiadau lechyd Cyhoeddus ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod <a href="http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504">http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504</a>	Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Sicrhau bod y Grŵp Gweithredu Ymyrraeth Gynnar yn mabwysiadu ymagwedd gydgyssylltiedig at y gwaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod sy'n digwydd yn lleol.	<b>Rob Quin, Mydrian Harries a Joanna Jones</b>

Ystyried cynnig mynediad i dir y goedwigaeth sydd ym mherchenogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Parciau Cenedlaethol.

Y Prif Arolygydd Richard Yelland, Huwel Manley a Julian Atkins

### 3. Fferm Wynt Fforest Brechfa

- Cyflwynodd Kevin Harrington o Antur Teifi, sef gweinyddwyr y gronfa gymunedol, y wybodaeth ddiweddaraf ac amlinellu'r cyllid oedd ar gael.
- £459k y flwyddyn ar gael i brosiectau cymunedol. Bydd hyn yn cael ei leihau i £382k y flwyddyn, wedi i ffioedd gweinyddu gael eu hystyried ynghyd â swydd ran-amser swyddog datblygu cymunedol.
- Bellach mae'r gronfa ar agor a'r dyddiad cau ar gyfer y rownd gyntaf o geisiadau yw 2 Awst 2018. Bydd 2 rownd y flwyddyn. Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer prosiectau fod o fewn 6 chilometr i ardal y fferm wynt.
- Bydd panel o aseswyr o'r gymuned leol yn cael eu recriwtio. Bydd yn rhaid eu bod yn gweithio yn yr ardal neu'n byw ynddi. Mae'r ceisiadau ar gyfer aelodau'r panel yn cau ar 2 Awst 2018.
- Mae'n rhaid i brosiectau ddangos canlyniadau gweladwy a gwir fudd i'r gymuned leol e.e. adnewyddu adeiladau, datblygu seilwaith, hyfforddi trigolion, ariannu staff a'r trydydd sector ac ati. Ceisiadau wedi'u cyfyngu i'r trydydd sector, grwpiau cymunedol, ysgolion, cynghorau cymuned a mentrau cymdeithasol ar hyn o bryd.
- Gellid sefydlu cronfa ranbarthol yn y dyfodol gyda'r potensial i ddarparu prosiectau i ardal ehangach. Gallai busnesau ac unigolion hefyd wneud ceisiadau wedyn.
- Cynhelir sesiwn ymsefydlu i aelodau'r Panel ar 10 Awst gyda chyfarfod cyntaf y Panel ar 15 Awst. Cyhoeddir y prosiectau cyntaf ar 23 Awst.
- Cafwyd trafodaeth wedyn a rhoddwyd cadarnhad bod cynigion ar gyfer dan £10k a thros £10k, dywedwyd mai Antur Teifi fyddai'n delio ag unrhyw wrthdaro buddiannau o ran aelodau o'r Panel, a byddai pobl ifanc yn cael eu hannog i fod ar y Panel hwnnw.
- Awgrymwyd y dylai'r prosiectau gydweddu ag amcanion y Cynllun Llesiant. Cytunodd Kevin Harrington y gellid cynnwys hwn yn sesiwn ymsefydlu'r aelodau ynghyd â hybu a gwneud cysylltiadau â gwella llesiant.
- Dylid dysgu gwersi gan ffermydd gwynt eraill er mwyn sicrhau'r budd gorau posibl yn sgil y buddsoddiad.
- Dylid mesur canlyniadau cytunedig ac nid allbynnau yn unig er mwyn sicrhau bod effaith glir o ran gwneud gwahaniaeth. Gellid defnyddio ymchwil ansoddol gyda thrigolion. Mae angen gwerthuso hirhoedledd yr effaith.

### CAM GWEITHREDU

Anfon Cynllun Llesiant ac Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at Kevin Harrington.	Gwyneth Ayers
--	---------------

Nodi prosiectau sylweddol a allai elwa ar gyllid fferm wynt Fforest Brechfa ac a fyddai'n ategu amcanion y Cynllun Llesiant, i'w hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2018.	PAWB
--	------

### 4. Cofnodion a Materion yn Codi: 2 Mai 2018

- Gwnaed y cyflwyniadau a chroesawyd Jason Jones i'r cyfarfod. Mynegodd y Cadeirydd bryderon ynghylch y diffyg presenoldeb a chytunwyd i adolygu'r aelodaeth o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sefydliadau penodol.
- Nodwyd mai Jonathan Feild oedd cynrychiolydd yr Adran Gwaith a Phensiynau erbyn hyn ac mai Rhian Jardine oedd dirprwy Huwel Maley ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, a byddai hi'n mynychu'r cyfarfod nesaf.
- Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir a thrafodwyd rhai materion a oedd yn codi.

- Tudalen 3: nodwyd bod yr ymgynghoriad 'Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol yn cau heddiw (12 Gorffennaf) a bydd adroddiad dadansoddi yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd ar 10 Awst, cyn cael ei roi gerbron cyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Medi.
- Tudalen 5: rhoddwyd diweddariad ar bresenoldeb gan Sarah Jennings, Barry Liles a Gwyneth Ayers yn y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i roi tystiolaeth fel rhan o'u hymchwiliad i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yr adborth a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd oedd bod diddordeb wedi bod gan y Pwyllgor yn y cysylltiadau rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Roedd pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhoi tystiolaeth ac roedd y ffocws wedi bod ar y broses o sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hytrach na'r posibilrwydd o'r hyn y gellid ei gyflawni. Roedd yn glir bod y Pwyllgor yn ymwybodol o enghreifftiau o arferion da a hyrwyddir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a bod angen i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin wella'r ffordd roedd yn cyfathrebu ac yn hyrwyddo ei arferion da.
- Cam gweithredu 2: Cadarnhaodd Gwyneth Ayres fod y ffurflen gofrestru ar gyfer cadarnhau ymrwymiad y Pwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus i'r 1,000 Diwrnod Cyntaf heb gael ei lofnodi eto oherwydd ei bod am weld y cysylltiadau â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Cam gweithredu 3: Dywedodd Gwyneth Ayers fod cysylltiadau eisoes wedi'u gwneud gydag arweinyddion TG ynghylch ffedereiddio systemau busnes Skype a byddai gwybodaeth am y cynnydd yn cael ei adrodd i gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi.

#### **CAM GWEITHREDU**

Adolygu aelodaeth y Bwrdd sydd wedi enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd	Gwyneth Ayers
--	---------------

#### **5. Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin**

- Rhoddodd Gwyneth Ayers ddiweddariad ar lafar am gyfarfod y Grŵp Cyflawni a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2018. Bu'n gyfarfod cadarnhaol, gyda phresenoldeb da o 50 – 60 o bobl yn cymryd rhan yn y trafodaethau cychwynnol.
- Yn dilyn hynny cynhaliwyd cyfarfod o'r Swyddogion Arweiniol ac mae grwpiau yn trefnu eu cyfarfodydd cyntaf i ddatblygu eu Cynllun Prosiect. Bydd adroddiad gerbron y Bwrdd ym mis Tachwedd 2018 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau drafft i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Amlinellodd Ros Jervis gynnig gan y Grŵp Gweithredu Ymgyrchoedd Cydlynus, a ddatblygwyd yn ystod y cyfarfod ar 21 Mehefin 2018. Cynigiwyd bod gan y Grŵp Gweithredu hwn swyddogaeth gyffredinol i gefnogi gwaith y Grwpiau eraill i gyflawni eu nodau tymor byr. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy sicrhau bod y negeseuon allweddol a'r gwaith a oedd yn cael ei gyflawni yn cael ei gyfathrebu'n gyson ac effeithiol, mewn modd integredig a thrawsbynciol. Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r cynnig hwn ac i'r argymhellion fod y Grŵp Ymgyrchoedd Cydlynus yn cyfarfod a'r holl Arweinyddion Arbenigol, yr Is-gadeiryddion a Phrif Swyddogion ar ôl bob cyfarfod o'r Bwrdd, a bod cynrychiolydd Cyfathrebu'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.
- Amlinellodd Barry Liles gynnig Caffael Bwyd Lleol gan y Grŵp Cyflawni Pobl a Lleoedd Ffyniannus am ddigwyddiad untro a hwyluswyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddai hyn yn dwyn ynghyd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac arweinwyr caffael. Mae Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd yn arbenigo mewn caffael cyhoeddus a bydd yn helpu yn y drafodaeth i edrych ar sut i gaffael yn wahanol, gan ddefnyddio pŵer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunwyd y dylid cefnogi cynhyrchwyr a darparwyr lleol bach a dylid ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer hyblygrwydd a chydweithio. Cadarnhaodd Barry Liles na fyddai cynhyrchwyr yn cael eu gwahodd i'r digwyddiad un-tro hwn gan mai rhannu syniadau oedd diben y digwyddiad yn y lle cyntaf. Cafodd y cynnig ei gefnogi.
- Awgrymwyd y gellid cyflwyno Siarter Gwerth Cymdeithasol.

## CAM GWEITHREDU

Adolygu amseroedd cychwyn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw i alluogi'r Grŵp Gweithredu Ymgyrchoedd Cydlynus i gyfarfod ar ôl cyfarfodydd y Bwrdd gydag Arweinwyr Arbenigol, Is-gadeiryddion a Swyddogion Arweiniol	Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Gwahodd cynrychiolydd cyfathrebu i gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.	Gwyneth Ayers
Trefnu digwyddiad i ystyried y cyfleoedd ar gyfer Caffael Bwyd Lleol – yn gysylltiedig â'r Grŵp Pobl a Lleoedd Ffyniannus.	Gwyneth Ayers, Barry Liles a Jane Davidson

### 6. Cyfarfod Rhanbarthol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus– adborth a'r camau nesaf

- Dosbarthwyd crynodeb o'r cyflwyniadau a gafwyd yn y cyfarfod rhanbarthol cyntaf gyda rhai awgrymiadau am gamau nesaf posibl. Roedd partneriaid o'r farn y bu'n gyfarfod cyntaf buddiol ond yn y dyfodol roedd angen canolbwyntio ar gytuno'r camau nesaf yn dilyn cyflwyniadau. Awgrymodd Barry Liles bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn estyn gwahoddiad i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill i'r cyfarfod rhanbarthol nesaf.
- Cadarnhaodd Gwyneth Ayers gan fod Polly Siliu-Jones yn gadael y rôl ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018 roedd cynlluniau ar waith i recriwtio i'r swydd cydgysylltydd rhanbarthol gydag arian Llywodraeth Cymru hyd ddiwedd Mawrth 2019.
- Cyfeiriodd Ros Jervis at Strategaeth Iechyd a Llesiant y Bwrdd Iechyd am ymyrraeth gynnar ac ataliaeth y mae'n ei llunio ar hyn o bryd. Gofynnir i bartneriaid gyfrannu at ei ddatblygiad.

## CAM GWEITHREDU

Cysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yn rhanbarth Hywel Dda a Phowys i gynnig cynnal y cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol nesaf.	Barry Liles a Gwyneth Ayers
---	-----------------------------

### 7. Rhaglen Ymgysylltu Cymunedol Ty-isa

- Rhoddodd Gwyneth Ayers y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar y prosiect cymunedol ac adfywio ffisegol hwn, yn dilyn trafodaethau â phartneriaid lleol. Roedd deg ar hugain o staff rheng flaen o asiantaethau partner wedi'u hyfforddi i ddarparu'r model datblygu cymunedol 'Planning for Real'. Maent yn ymgysylltu â'r gymuned mewn amrywiaeth o ddiwyddiadau dros y chwe wythnos nesaf i annog pobl i gyfrannu syniadau a thrafod materion. Bydd y cam nesaf ym mis Medi a mis Hydref pan fydd sesiynau'n cael eu cynnal i ystyried canfyddiadau ac i ddatblygu prif gynllun erbyn mis Mawrth 2019.
- Os bydd y dull hwn yn llwyddiannus, gellid ailadrodd y prosiect mewn ardaloedd eraill yn y dyfodol.
- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi Llofnodi Cytundeb Cydweithio â Phrifysgol Abertawe a Sterling Health, partner yn y sector preifat i ddatblygu'r Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd sydd werth £200 miliwn yn Llynnoedd Delta Llanelli. Gallai hyn fod yn gatalydd enfawr ar gyfer ardaloedd Ty-isa a Heol yr Orsaf.

### 8. UNRHYW FATER ARALL

- Cafwyd llythyr gan Dîm Cymorth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i ddosbarthwyd i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd ganddynt ddiwedd i fynd i sesiwn hanner diwrnod, wedi'i hwyluso gan Academi Cymru ar 'Fyrddau Iach'. Gofynnwyd a fyddai modd ymgymryd â dull rhanbarthol gan fod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a Cheredigion wedi cadarnhau eu diddordeb mewn sesiwn o'r fath. Gallai hyn fod yn heriol oherwydd gallai'r sesiwn fod yn benodol Fyrddau unigol ond dylid ymchwilio i hyn. Awgrymwyd y gallai dull mwy pwrpasol fod yn fuddiol petai Academi Cymru yn gallu arsylwi cyfarfod o'r Bwrdd a rhoi adborth.

- Dechreuodd Rob Quin drafodaeth ynghylch sicrhau bod cymunedau yn elwa ar hyn a addewir fel rhan o'r cytundebau sy'n ymwneud â chynllunio datblygiadau. Cadarnhaodd Jason Jones fod Cytundebau Adran 106 yn dal yn gymwys yn lleol ac y gellid mapio canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Llesiant.

<b>CAM GWEITHREDU</b>	
Cysylltu ag Academi Wales i ystyried unrhyw gyfleoedd datblygu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd yn gysylltiedig â'r sesiwn Byrddau Iach.	Gwyneth Ayers
Diffinio prosiect i edrych ar y defnydd o fuddsoddiad y sector preifat sy'n berthnasol i geisiadau cynllunio (Cytundebau Adran 106)	Barry Liles a Gwyneth Ayers

- Gadawodd Barry Liles y cyfarfod wrth i drafodaeth gymryd lle a oedd yn ymwneud â chadeirio'r cyfarfod a chynrychiolaeth. Cadarnhaodd Gwyneth Ayers y byddai'n Barri yn ymddeol o'i rôl bresennol gyda Choleg Sir Gâr ar ddiwedd Awst 2018 ac y byddai'n ymgymryd â rôl ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant. Roedd Andrew Cornish wedi'i benodi yn Bennaeth newydd Coleg Sir Gâr. Roedd angen i'r aelodau ystyried a oeddent yn dymuno i Barry barhau yn Gadeirydd. Roedd Is-gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Cynghorydd Emlyn Dole, yn gefnogol i Barry barhau yn Gadeirydd. Cytunwyd yn unfrydol y dylai Barry barhau yn Gadeirydd, gan gynrychioli PCYDDS, gyda Jane Davidson hefyd yn parhau i gynrychioli PCYDDS ac ychwanegu Andrew Cornish at yr aelodaeth. Nodwyd gwerth cyfraniad Barry a gwerth cael Cadeirydd annibynnol. Cytunwyd y byddai gan Barry hawliau pleidleisio ar ran PCYDDS.

	<b>Crynodeb o'r Camau Gweithredu</b>	<b>Pwy</b>	<b>Y Wybodaeth Ddiweddaraf</b>
	<b>Camau gweithredu yn dilyn y cyfarfod 12 Gorffennaf 2018</b>		
1	Dosbarthu adroddiadau Iechyd Cyhoeddus ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod <a href="http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504">http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504</a>	<b>Tîm Cefnogi'r BGC</b>	Wedi ei gwblhau
2	Sicrhau bod y Grŵp Gweithredu Ymyrraeth Gynnar yn mabwysiadu ymagwedd gydgyssylltiedig at y gwaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod sy'n digwydd yn lleol.	<b>Rob Quin, Mydrian Harries a Joanna Jones</b>	
3	Ystyried cynnig ynghylch mynediad i dir coedwigaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer y prosiect Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod	<b>T/Prif Arolygydd Richard Yelland, Huwel Manley a Julian Atkins</b>	
4	Anfon yr Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at Kevin Harrington	<b>Gwyneth Ayers</b>	Wedi ei gwblhau
5	Nodi prosiectau sylweddol a allai elwa ar gyllid fferm wynt Fforest Brechfa ac a fyddai'n ategu amcanion y Cynllun Llesiant, i'w hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2018.	<b>PAWB</b>	Ar waith i gyfarfod mis Tachwedd y BGC
6	Adolygu aelodaeth y Bwrdd sydd wedi enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd	<b>Gwyneth Ayers</b>	Wedi ei gwblhau
7	Adolygu amseroedd cychwyn cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw i alluogi'r Grŵp Gweithredu Ymgyrchoedd Cydlynus i gyfarfod ar ôl cyfarfodydd y Bwrdd gydag Arweinwyr Arbenigol, Is-gadeiryddion a Swyddogion Arweiniol	<b>Tîm Cefnogi'r BGC</b>	Wedi ei gwblhau
8	Gwahodd cynrychiolydd cyfathrebu i gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.	<b>Gwyneth Ayers</b>	Trefniadau i'w cadarnhau
9	Trefnu digwyddiad i ystyried y cyfleoedd ar gyfer Caffael Bwyd Lleol – yn gysylltiedig â'r Grŵp Pobl a Lleoedd Ffyniannus.	<b>Gwyneth Ayers, Barry Liles a Jane Davidson</b>	Ar waith
10	Cysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yn rhanbarth Hywel Dda a Phowys i gynnig cynnal y cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol nesaf.	<b>Barry Liles a Gwyneth Ayers</b>	Ar waith
11	Cysylltu ag Academi Wales er mwyn ystyried unrhyw ddatblygiadau ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gysylltiedig â sesiwn y Byrddau Iach	<b>Gwyneth Ayers</b>	Ar waith
12	Diffinio prosiect i edrych ar y defnydd o fuddsoddiad y sector preifat sy'n berthnasol i geisiadau cynllunio (Cytundebau Adran 106)	<b>Barry Liles a Gwyneth Ayers</b>	Ar waith